

# SUL YR HINSAWDD

## Syniadau ar gyfer Gweithredu



Ein gobaith yw y bydd eich corfflu neu ganolfan, drwy ymgysylltu â Sul yr Hinsawdd, mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn. Nid oes dyddiad penodol ar gyfer Sul yr Hinsawdd felly gellir defnyddio'r adnoddau hyn ar unrhyw Sul o'ch dewis.

Mae'r camau canlynol yn ddau beth allweddol y gallwch eu gwneud yn unigol ac ar y cyd i weithredu fel rhan o Sul yr Hinsawdd.

### Gwneud Ymrwymiad

Ymrwymo i gymryd camau tymor hir i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr eich corfflu neu'ch canolfan. Y ffordd orau o wneud hyn yw ymuno ag un o'r rhaglenni presennol fel [Eco Eglwys Cymru a Lloegr](#)), [Eco Congregation yr Alban](#) neu [Eco-Congregation Iwerddon](#). Cliciwch y ddolen berthnasol i gael gwybod mwy a sut i gofrestru.

### Codwch eich Llais

Defnyddiwch eich llais i ddweud wrth wleidyddion eich bod am gael dyfodol glanach, gwyrddach a theg wrth wraidd cynlluniau i ailadeiladu economi gref.

Darllenwch a llofnodwch ddatganiad ["The Time Is Now' ??? ClymbLaid yr Hinsawdd <https://thetimeisnow.uk/declaration?partner=106>](https://thetimeisnow.uk/declaration?partner=106) fel corfflu neu ganolfan ac fel unigolyn.

### Camau Eraill

Os nad ydych yn barod eto i ymuno â chynllun eco, dyma rai pethau y gallech eu gwneud i ddechrau arni:

- Ymrwymo i ganolbwyntio ar faterion newid yn yr hinsawdd a gofal am y cread yn fwy rheolaidd yn eich addoliad, eich gweddi a'ch addysgu.
- Dwyn ynghyd grŵp o bobl i ystyried y ffordd orau o weithredu.
- Defnyddio offeryn fel [360°carbon](#) i fesur ôl troed carbon eich corfflu/canolfan. Oherwydd pandemig Coronafirws, efallai y byddwch am wneud hyn yn seiliedig ar eich gweithgareddau yn 2019 yn hytrach na 2020/2021 oherwydd y cyfyngiadau ar rai gweithgareddau dros y cyfnod hwn.
- Ystyried pa newidiadau y gallech eu gwneud, e.e. LED/bylbiau ynni is, cynhyrchion wedi'u hailgylchu neu gynhyrchion o ffynonellau cynaliadwy, lleihau'r defnydd o nwyddau untro (ee cwpanau a phlatiau), cynhyrchion glanhau eco gyfeillgar. Os na allwch ddod o hyd i gynhyrchion addas drwy eich sianeli prynu arferol, cysylltwch â'r [fîm caffael](#) i holi am gymorth.
- Ystyried sut i leihau eich ôl troed teithio fel cynulleidfa drwy gerdded neu feicio mwy lle mae hynny'n bosibl.
- Gwella unrhyw dir neu ofod awyr agored sydd gennych er budd bywyd gwyllt brodorol drwy blannu coed, blodau gwyllt, porthwyr adar, gwestai byg ac ati.
- Ymuno ag unrhyw waith cadwraeth lleol neu brosiectau glanhau cymunedol.